## ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd: Elin Walker Jones** **Grŵp: Plaid Cymru**

**Ward: Glyder**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Aelod etholedig ward Glyder, Bangor. Aelod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, a'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol. Pencampwr Awtistiaeth Cyngor Gwynedd.

**Gweithgareddau etholaethol:**
Delio efo amryw o faterion lleol yn ôl y galw: gan gynnwys materion traffig a diogelwch croesi'r ffordd; diogelwch cyffredinol; cyflwr y lonydd, palmentydd a throedffyrdd; galw digroeso; baw ci; biniau; sbwriel; cyflwr tai a fflatiau; materion tai a digartrefedd; torcyfraith a chyffuriau; goleuadau stryd; blychau ffôn; bwrdd dŵr; torri coed a gwrychoedd; glendid strydoedd, tipio ar y slei, materion cynllunio; eiriolaeth; cefnogi Tyfu yn eu hymgyrch i gael rhandiroedd i Fangor; budd-daliadau; lleoliadau addysgol; gwaith ar y ffordd ayb.
Cydweithio efo trigolion, swyddogion, penaethiaid ysgol, aelodau cabinet, cydgynghorwyr, yr heddlu, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Awtistiaeth ac Asperger Gwynedd a Môn (GAAASG), *Autism Initiatives*, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, asiantaethau budd-dal, a rhanddeiliaid eraill yn y sector gyhoeddus, breifat a thrydydd sector ar amryw o faterion.
Cydweithio efo aelod cynulliad ac aelod seneddol i fynd i'r afael â phroblemau lleol, e.e. traffig ar Ffordd Penrhos.
Cysylltu ag adrannau o fewn Llywodraeth Cymru lle bo angen, e.e. ymholiadau am drefniant lleoliadau addysg arbennig. Ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth ar faterion perthnasol, e.e. y Bil Cynllunio.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
**Menter Iaith Bangor**
Aelod o'r Pwyllgor. Cyfrannu at waith y Fenter efo diwrnod Shw Mae/Su Mae; Parêd Dydd Gwyl Dewi; ymateb i'r Cynllun Datblygu ar y cyd; a gwaith y Fenter efo grwpiau fel Grŵp Cymunedol Pobl Bangor efo'r dathliadau Nadolig a'r Carnifal; yr Amgueddfa; Grŵp Digwyddiadau Bangor ac ati. Cynrychioli'r Fenter ar Grŵp Iaith Cymunedol Arfon.
**CPERA a Grŵp Cymunedol Maestryfan**
Cydweithio efo Cymdeithas Pobl Eithinog (cadeirydd CPERA) a Grŵp Cymunedol Maestryfan.
Traffig ysgol yn broblem fawr; llawer o waith wedi mynd ymlaen i roi gwybodaeth i'r Cyngor am natur y problemau sy'n wynebu defnyddwyr yr ardal bob dydd a theimladau rhanddeiliaid am sut ddylai pethau weithio.
Gweithio efo'r gymuned leol yn Maestryfan yn cefnogi'r grŵp cymunedol.
Cyflwr y lonydd, palmentydd a'r troedffyrdd wedi bod yn broblem ers amser. Cyfarfodydd efo rhanddeiliaid i geisio cael datrysiad.
Cydweithio efo trigolion a'r heddlu i sicrhau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH - PCSO) ar gyfer y ward. Bu'r SCCH yn ymweld â dwy ffair haf er mwyn marcio beics a dod i adnabod y trigolion, disgyblion, rhieni a staff yr ysgolion. Buont hefyd yn rhoi cyngor ar faterion lleol, sefydlu grwpiau Gwarchod y Gymdogaeth ayb.
Gweithio efo'r gymuned leol a'r heddlu i sefydlu grwpiau **Gwarchod y Gymdogaeth**.

Ymweliad â Chae Garnedd.
Cydweithio efo aelodau **Grwp Awtistiaeth ac Asperger Gwynedd a Mon (GAAASG)** yn enwedig y grŵp oedolion ifanc.
Mentora myfyriwr o'r adran Polisi Cymdeithasol a oedd â diddordeb arbennig mewn Awtistiaeth.
**Parkrun Penrhyn**
Cydweithio efo'r Cyngor ac unigolion brwdfrydig i sefydlu Parkrun lwyddiannus ym Mangor
**Bws Cerdded**
Cynnal bws cerdded yn ystod wythnos Cerdded i'r Ysgol, gan gydweithio efo Ysgol Tryfan i roi cyfleoedd i'r disgyblion gwblhau darn o waith gwirfoddol drwy ein cefnogi ar ein taith i'r ysgol bob dydd.
**Banc Bwyd y Gadeirlan**
Ymweld â Banc Bwyd y Gadeirlan i ddeall natur eu gwaith a'r heriau sy'n eu wynebu. Hwyluso cyfarfod rhwng gwirfoddolwyr y Banc Bwyd efo Avalon, sef asiantaeth cyngor am fudd-daliadau.
**Plaid Cymru**
Gwaith i Blaid Cymru, gan gynnwys bod yn Is-gadeirydd cangen Plaid Cymru Bangor, mynychu'r gynhadledd flynyddol a'r gynhadledd wanwyn yng Nghaernarfon.

**Codi Arian**
Cefnogi a chodi pres i **TeamIrfon, Awyr Las** ac hefyd yr **Ambiwlans Awyr**.
**Cydweithio ar draws y Cyngor**
Cyfrannu at waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd drwy drafod materion ee amrywiaeth a chyfartaledd efo'r Cadeirydd.
**Cydweithio rhwng y Cyngor ac Asiantaethau eraill**
Hwyluso a chymryd rhan mewn cyfarfod rhwng yr adran Gofal Stryd a Chanolfan Newid Ymddygiad Cymru,Prifysgol Bangor.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 5 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 3 |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | 1 |
| Cyfarfodydd Paratoi Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 4 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 1 |

Canran Presenoldeb: 70%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nori isod, oherwydd:**
**-**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
Panel Rhiant Corfforaethol (cynrychiolydd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau)
Panel Iechyd, Diogelwch a Lles
Gweithgor Ansawdd Addysg Gymraeg
Gweithgor Mwy Na Geiriau
Bwrdd Prosiect Ysgol Arbennig Hafod Lon Newydd
Grwp Rhanddeilaiid Awtistiaeth Gwynedd a Môn
Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Gwynedd a Môn
Seminar i aelodau PC ar y Bil Cynllunio efo Llŷr Huws Gruffudd AC
Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**
Ysgol y Garnedd (Llywodraethwr)
Ysgol Tryfan (Llywodraethwr)

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**
Seremoni *Grassroot Diplomat Social Driver Category* Llundain, Mai 2014

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol | 17/09/2014 |
| Arwain yn Ddiogel | 05/12/2014 |

Cyfanswm nifer o oriau: 7.5 awr